**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

19 Hydref 2022

Annwyl Peredur,

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod ichi y bydd cyfarfod o'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid yn cael ei gynnal ar 20 Hydref.

Bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar yr argyfwng economaidd a chyllidol presennol. Cyn i Gynllun Cyllidol Tymor Canolig y Canghellor gael ei gyhoeddi ar 31 Hydref, byddaf yn gofyn am sicrwydd o ran cefnogaeth i aelwydydd a busnesau agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod ymrwymiadau blaenorol gan Lywodraeth y DU i godi budd-daliadau yn unol â chwyddiant yn cael eu gwireddu.

Byddaf yn pwysleisio effaith chwyddiant, cyflog a chostau eraill ar wasanaethau cyhoeddus ac mai'r flaenoriaeth yw sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu diogelu. Dylid ariannu cymorth ychwanegol drwy dargedu elw gormodol y sectorau ynni a bancio.

Byddaf hefyd yn pwyso ar Lywodraeth y DU i ddarparu'r ysgogiad cyfalaf sydd ei angen i hybu twf economaidd, gan gynnwys buddsoddi mewn ynni gwyrdd a datgarboneiddio i wella ein sicrwydd ynni at y dyfodol ac i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Bydd y trafodaethau'n parhau o'r cyfarfod diwethaf ar welliannau i gryfhau prosesau er mwyn rhoi mwy o sicrwydd diwedd blwyddyn ynghyd â hyblygrwydd priodol yn y gyllideb, gyda'r llywodraethau datganoledig yn nodi cynigion ar gyfer y ffordd ymlaen.

Oherwydd yr angen i ganolbwyntio ar yr argyfwng economaidd a chyllidol presennol, bydd y camau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod diwethaf i drafod cyllid newydd yr UE yn cael ei ohirio tan gyfarfod mis Rhagfyr.

Byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar ganlyniadau'r cyfarfod.

Yn gywir

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.